



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Lleihau'r defnydd o Blastig Untro

Cynigion i wahardd naw cynnyrch plastig untro yng
Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2020

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn Ymatebion erbyn 21 Hydref 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.



Trosolwg Rydym yn symud i economi gylchol er mwyn sicrhau nad ydym yn defnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r byd. Mae lleihau ein defnydd o eitemau untro yn rhan annatod o'r symudiad hwn. Rydym hefyd yn anelu at greu Cymru ddi-sbwriel. I gefnogi hyn, mae angen i ni gael gwared ar y defnydd o blastig untro diangen sy'n cael eu taflu'n aml a chreu llanast. Rydym yn croesawu eich barn ar ein cynlluniau i helpu i gyflawni hyn drwy wahardd nifer o gynhyrchion plastig untro cyffredin sy'n diweddu fel sbwriel yn ein moroedd ac ar ein traethau.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau. Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion a rhoi sylwadau drwy'r post neu e-bost hefyd. Mae'r manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Mae'r ddogfen hon ar gael yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu Rhagor o wybodaeth:
Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: EQR@llyw.cymru

Ffôn: 0300 0604400

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg <https://gov.wales/reducing-single-use-plastic-wales>

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae gwastraff plastig a'r effaith ar ein hamgylchedd yn destun sylw rheolaidd ar-lein, yn y cyfryngau ac mewn sgysiau bob dydd gyda phobl o Fôn i Fynwy. Eitemau plastig untro yw cyfran sylweddol o sbwriel ein strydoedd, ein parciau a'n moroedd. Mae'n difetha ein cymunedau ac yn cael effaith ddinistriol ar ein bywyd gwyllt.



Yn ystod cyfnod anodd a chythryblus cyfyngiadau symud COVID-19, cafodd llawer ohonom gyfle prin i ailddarganfod a gwerthfawrogi ein cynefin o'r newydd. Yn gyffredinol, roedd llawer wedi mwynhau gweld llai o sbwriel o'n cwmpas. Ond wrth i'r rheolau lacio, mae sbwriel wedi dechrau troi'n broblem eto.

Mae ysbryd cymunedol cryf a balch yn rhan ganolog o fywyd y genedl, a phan ddaw hi'n fater o leihau plastig a sbwriel, ein cymunedau sydd wedi arwain yn blaen. Ledled Cymru benbaladr, mae trefi, dinasoedd a chymunedau arfordirol a gwledig yn dewis troi'n 'ddiblastig'. Mae gwirfoddolwyr wedi gweithio law yn llaw â chynghorau lleol ac elusennau i dynnu plastig o'n cadwyni cyflenwi a'r amgylchedd.

Mae llawer o'r to iau wedi tynnu sylw at orddefnydd o blastig defnydd untro. Fe'u gwelsom yn trefnu sawl ymgyrch, gan gynnwys gwaith diweddar Senedd Ieuenctid Cymru ar daflu sbwriel a gwastraff plastig. Nod ein cynigion yw adeiladu ar hyn. Rydym am newid ymddygiad defnyddwyr tuag at ddefnyddio llai o eitemau untro a gwella ein henw da yn fyd-eang fel esiampl ym maes ailgylchu.

Wrth i ymddygiad defnyddwyr newid, mae mwy o alw am gynhyrchion cynaliadwy nad ydynt yn niweidio ein hamgylchedd. Hoffwn weld ein busnesau yn arwain y ffordd wrth ymateb i'r her, gan eu galluogi i ffynnu tra'n sicrhau manteision i gymdeithas a'r amgylchedd fel ei gilydd. Croesawaf y newidiadau arloesol a ddangoswyd eisoes gan amrywiaeth o fusnesau yng Nghymru i ddefnyddio llai o eitemau plastig untro a mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Ond nid da lle gellir gwell. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion i wahardd nifer o eitemau plastig untro lle mae dewisiadau eraill diblastig ar gael. Eitemau sy'n cael eu taflu fel sbwriel cyffredin, nad ydynt yn hanfodol.

Gobeithio y gwnewch chi fachu ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad a'n helpu i gyrraedd ein nod o wneud Cymru yn genedl gyfrifol nad yw'n defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau'r byd. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth a chreu amgylchedd gwell i genedlaethau heddiw ac yfory yng Nghymru.

Hannah Blythe

Ein huchelgais

1. Yn yr ugain mlynedd ers datganoli, mae Cymru wedi gweddnewid o fod yn genedl oedd yn ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol, i fod yn geffyl blaen rhyngwladol sy'n ailgylchu 63%. Ar ben hynny, rydym wedi arwain y blaen drwy fod y wlad gyntaf yn y DU i godi tâl am ddefnyddio bagiau siopa untro. Rydym am adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy barhau i ystyried dulliau amgen ac arloesol o gael gwared yn raddol ar blastigion untro.
2. Hoffem greu cenedl lle mae effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o'n diwylliant, lle rydym yn cydnabod gwerth ein hadnoddau ac yn lleihau faint o wastraff sy'n codi. Fe wnaethom gyhoeddi dogfen ymgynghori, *Mwy nag Ailgylchu*¹, ddiwedd y llynedd a ymgysylltodd yn frwd â phobl Cymru ar y llwybr y dylem ei ddilyn tuag at economi fwy cylchol sy'n parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag sy'n bosibl ac sy'n dileu gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared yn raddol ar blastigion untro a pheidio ag anfon gwastraff plastig i safleoedd tirlenwi.
3. Mae'r ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer gwahardd naw eitem plastig untro. Mae'n gam allweddol ar ein llwybr i gael gwared ar blastigion untro bob yn dipyn.
4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd ag ystod ehangach o ymyriadau sydd ar y gweill i ddileu gwastraff, gan gynnwys sbwriel. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - deddfwriaeth ar gyfer cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR) o ran deunydd pacio,
 - treth ar ddeunydd pacio plastig ar gyfer y DU gyfan i annog mwy o ddefnydd o blastig wedi'i ailgylchu,
 - archwilio'r posibilrwydd o gael treth Gymreig neu dâl ar gwpanau plastig untro er mwyn lleihau'r galw am eitemau o'r fath, ac
 - adeiladu ar lwyddiant ein tâl am fapiau siopa untro, gyda chamau i fynd i'r afael â defnyddio mathau eraill o fapiau.
5. Mae cael gwared ar eitemau plastig untro o'r ffrwd wastraff yn rhan annatod o'n cynlluniau i fynd i'r afael â sbwriel. Yn 2019, dangosodd astudiaeth Llywodraeth Cymru ² o gyfansoddiad gwastraff sbwriel y wlad, y gellid bod wedi ailgylchu 61% o'r holl wastraff sbwriel fesul pwysau a gasglwyd ac a ddadansoddiwyd drwy ddefnyddio'r systemau ailgylchu presennol, naill ai gartref, trwy fanciau ailgylchu cyhoeddus, biniau ailgylchu a gesglir neu mewn canolfannau ailgylchu.

¹Ymgynghoriad *Mwy nag Ailgylchu*, strategaeth economi gylchol: Llywodraeth Cymru, 2020 - <https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol>

² Dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff sbwriel yng Nghymru: Llywodraeth Cymru, 2019- <https://llyw.cymru/dadansoddiad-o-gyfansoddiad-gwastraff-sbwriel-yng-nghymru>

Amcangyfrifwyd bod hyn yn gyfystyr â 15,683 tonnall o ddeunydd sbwriel ailgylchadwy yn ystod y flwyddyn. Mae'n swm sylweddol o adnoddau gwerthfawr posibl a gollir i'r amgylchedd naill ai fel sbwriel neu wrth iddo gael ei anfon i safle tirlenwi.

6. Mae sbwriel hefyd yn bryder allweddol yn ein cymunedau ac yn broblem rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â hi. Yn ystod y cyfnod diweddar o gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, daeth llawer i ailddarganfod a gwerthfawrogi eu cynefin o'r newydd. Yn gyffredinol, roedd llawer o gymunedau wedi elwa ar lai o sbwriel. Ond wrth i'r cyfyngiadau ddechrau, mae sbwriel yn broblem amlycach yn ein strydoedd, ein parciau a'n traethau eto.
7. Cymru ddi-sbwriel yw ein huchelgais. Mae gennym eisoes Gynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr (MLAP) 2020-23³ sy'n cynnwys atal fel egwyddor graidd ac sy'n cefnogi ein gweledigaeth o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Rydym hefyd yn datblygu cynllun atal sbwriel ychwanegol yn ystod tymor presennol Senedd Cymru er mwyn mynd i'r afael â sbwriel mewn cymunedau lleol. Mae gan bawb ran i'w chwarae ac rydym yn cydweithio ag ystod o bartneriaid ar fentrau niferus i sbarduno newid ymddygiad, yn enwedig mewn mannau lle mae problem taflu sbwriel yn bla. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda manwerthwyr bwyd cyflym ar opsiynau i leihau faint o ddeunydd pacio bwyd sy'n cael ei daflu fel sbwriel.

³ Cynlluniau Gweithredu ar Sbwriel Môr: Llywodraeth Cymru-
<https://businesswales.gov.wales/marineandfisheries/cy/gwybodaeth-ac-ystadegau/sbwriel-morol/cynllun-gweithredu-i-gymru-ar-sbwriel-mor>

Ein cynigion

Pam mae'n rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â phlastigion untro?

8. Gall plastig, pan fydd wedi'i gynllunio'n dda ac yn angenrheidiol, chwarae rhan bwysig yn ein heconomi a'n bywydau bob dydd. Ond gan fod cymaint o ddefnydd ohono bellach, dyw pobl yn aml ddim yn gweld fawr o werth arno fel adnodd - os o gwbl - ac felly'n ei waredu ar ôl ei ddefnyddio unwaith, ddim yn ei ailgylchu neu yn ei daflu fel sbwriel. Mae hyn yn arbennig o wir am eitemau llai nad yw'n hawdd eu pigo. Mae'r eitemau hyn wedyn yn golchi i'n moroedd a'n traethau. Yn 2018, dangosodd ymchwil⁴ y Comisiwn Ewropeaidd, mai plastig yw 80 i 85% o sbwriel y môr, a fesurwyd gan arolygon sbwriel ar y traeth, ac mai eitemau plastig untro oedd 50% o'r cyfanswm hwnnw.
9. Roedd y gwaith ymchwil yn dangos mai deunydd pacio bwyd a diod "wrth fynd" oedd eitemau sbwriel mwyaf cyffredin traethau Ewrop, tra bod eraill yn llifo i'r môr drwy'r system garthffosiaeth. Fodd bynnag, gan fod plastig yn gallu torri i lawr dros amser i mewn i ddarnau llai, gall fod yn anodd adnabod ei darddiad. O'r sbwriel a nodwyd, y prif eitemau oedd:
 - ffyn cotwm plastig
 - cytleri
 - platiau
 - troellwyr diodydd
 - gwellt
 - ffyn balwnau
 - cynwysyddion bwyd wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu
 - cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu
10. Mae astudiaethau yng Nghymru yn awgrymu bod sbwriel plastig untro yn gyffredin yn ein hamgylchedd lleol. Er enghraifft, roedd dadansoddiad cyfansoddiadol diweddar Llywodraeth Cymru o sbwriel yn dangos bod eitemau plastig mewn 40% (fesul cyfrif eitem) o'r holl sampl a ddadansoddwyd. Mae arolygon o draethau a glendid strydoedd Cymru wedi cadarnhau presenoldeb llawer o'r eitemau a ganfuwyd yn ymchwil y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod penwythnos 'Great British Clean' y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn 2019⁵ gwelwyd bod 322 ar gyfartaledd o eitemau plastig fesul 100 metr o draeth a arolygwyd. Roedd arolwg Cadwch

⁴ Reducing Marine Litter: action on single use plastics and fishing gear – Impact Assessment: Y Comisiwn Ewropeaidd, 2018 - https://ec.europa.eu/environment/circular-economy/pdf/single-use-plastics_impact_assessment.pdf

⁵ Great British Beach Clean Report: Marine Conservation Society, 2019 - <https://www.mcsuk.org/news/great-british-beach-clean-2019-report>

Gymru'n Daclus o lendid strydoedd 2018-19⁶ yn dangos bod sbwriel bwyd cyflym ar 20% o'r strydoedd a welwyd.

11. Unwaith y bydd plastig wedi cyrraedd y moroedd, gall creaduriaid y môr ei fwyta ar ddamwain gan achosi niwed posibl os bydd yn cronni yn eu systemau treulio. Gall presenoldeb swmp o sbwriel plastig ar ein harfordiroedd gael effaith weledol negyddol hefyd, gan atal twristiaid ac effeithio ar ein cymunedau arfordirol a'u heconomïau.
12. Mae llawer o eitemau untro yn cael eu darparu i ddefnyddwyr am bris isel neu am ddim, gyda bwyd neu ddiod a brynir. Mae'r eitemau hyn yn fach iawn ac o werth unigol isel iawn, i'r defnyddiwr terfynol ac i'r manwerthwr. Felly, bernir nad yw'r gost a'r ymdrech o'u didoli, eu glanhau a'u prosesu ar gyfer ailgylchu yn werth chweil. O ganlyniad, mae cyfaint uchel o'r cynhyrchion hyn yn cael eu taflu i ganol gwastraff cyffredinol, naill ai gan y defnyddiwr terfynol neu'r manwerthwr, neu'n cael eu lluchio fel sbwriel. Felly, mae costau allanol ynghlwm wrth y cynhyrchion hyn - costau nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mhris y cynnyrch i'r defnyddiwr. O'r herwydd, mae sail economaidd i ymyrraeth y llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â'r methiant hwn yn y farchnad.
13. Rydym yn croesawu'r camau gwirfoddol y mae cymunedau a busnesau yn eu cymryd i symud oddi wrth blastigion untro diangen. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y cynnydd a wneir yn rhy araf. Heb ymyrraeth i ddileu plastigion cost isel, gwerth isel ond niweidiol iawn o'r farchnad ni fyddwn yn llwyddo i fynd i'r afael yn effeithiol â sbwriel a llygredd plastig. Rhaid inni adeiladu ar y mentrau hyn gan weithredu i gyflymu'r broses o symud oddi wrth eitemau o'r fath.
14. Mae sefyllfa ddiweddar COVID-19 wedi pwysleisio'r angen am gyfarpar diogelu personol tafladwy er mwyn helpu i atal y clefyd rhag lledaenu a gwarchod ein cymunedau. Er hynny, nid yw hyn wedi newid yr angen i symud oddi wrth y rhan fwyaf o eitemau plastig untro.

⁶ Cadwch Gymru'n Daclus – pa mor lân yw ein strydoedd? Adroddiad 2019:
<https://www.keepwalestidy.cymru/Handlers/Download.ashx?IDMF=1af1bd5c-e6fc-483b-b263-153164bb6e96>

Pa eitemau plastig untro rydym ni'n bwriadu eu gwahardd

15. Rydym yn cynnig cyflwyno is-ddeddfwriaeth i wahardd busnesau rhag darparu rhai eitemau plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru, waeth a yw'r busnesau hynny'n bwriadu codi tâl am yr eitemau hynny ai peidio.

16. Mae'r eitemau hyn yn cyd-fynd â'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn erthygl 5 o Gyfarwyddeb (UE) 2019/904, Cyfarwyddeb Plastig Untro yr Undeb Ewropeaidd. Dyma nhw:

Eitem 1 – ffyn cotwm plastig

Eitem 2 – cytleri (gan gynnwys cyllyll, ffyrc, llwyau, *sporks*, gweill bwyta)

Eitem 3 - platieu (gan gynnwys hambyrddau, dysglau, powlenni a phlatiau papur wedi'u lamineiddio)

Eitem 4 - troellwyr diodydd

Eitem 5 – gwellt

Eitem 6 - ffyn balwnau

Eitem 7 - cynwysyddion bwyd wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu

Eitem 8 - cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu

Eitem 9 - cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig oco-so-bioddiraddiadwy (cynhyrchion plastig sy'n dadelfennu trwy ocsidiad yn ficro-dameidiau) Mae enghreifftiau'n cynnwys bagiau siopa, ffilmiau tomwellt amaethyddol ac, yn fwyaf diweddar, poteli plastig penodol.

17. Credwn y bydd y gwaharddiad yn cyflymu'r broses o symud oddi wrth yr eitemau plastig untro problemus hyn. Bydd yn annog busnesau i symud tuag at ddewisiadau mwy amldeffnydd, haws eu hailgylchu a llai niweidiol i'r amgylchedd. Bydd hefyd yn helpu i symud ymddygiad defnyddwyr oddi wrth ddefnyddio cymaint o eitemau plastig untro.

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cefnogi ein cynnig i wahardd pob un o'r eitemau plastig untro a restrir uchod? Os nad ydych chi, rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

Beth mae ein hymchwil yn ei ddweud am effeithiau gwaharddiad o'r fath yng Nghymru

18. Yn 2019, fe wnaethom gomisiynu ymchwil i helpu i ddeall effeithiau posibl cyflwyno gwaharddiad ar yr eitemau hyn⁷. Amcangyfrifodd yr ymchwil faint o bob cynnyrch sy'n cael ei werthu a faint o gynhyrchion diblastig amgen oedd ar gael a chostau hynny. Defnyddiodd yr astudiaeth y wybodaeth hon, ynghyd â chasgliadau ynghylch pa blastig neu eitemau amgen a oedd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru ai peidio, er mwyn amcangyfrif effeithiau economaidd posibl y cynigion ar weithgynhyrchwyr a busnesau Cymru.
19. Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod costau ariannol posibl i weithgynhyrchwyr plastigion pe baent yn dewis defnyddio deunyddiau gwahanol i greu'r un cynnyrch. Costau prynu offer newydd, er enghraifft. Hefyd, roedd rhywfaint o gost ariannol i'r sector lletygarwch wrth brynu stoc amgen nad yw'n blastig, a chanfuwyd eu bod ychydig yn ddrutach. Awgrymodd y gallai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr, felly, dalu swm bach ychwanegol ar gyfer rhai cynhyrchion bwyd neu ddiod "i fynd" (e.e. pryd ar glud) pe bai manwerthwyr yn dewis peidio ag ysgwyddo'r costau hyn eu hunain. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth fod manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn sgil llai o sbwriel yn drech na'r costau bach hyn.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y bydd manteision amgylcheddol a chymdeithasol posibl ein cynigion yn gorbwyso'r effeithiau posibl ar bobl yng Nghymru? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

20. Roedd adroddiad yr asesiad o effaith yn cydnabod y gallai'r canfyddiadau gael eu cyfyngu gan y data y gellid eu casglu yn ystod y cyfnod astudio. Does dim data cynhwysfawr a chywir ar y farchnad er mwyn pennu swm a phris pob cynnyrch sy'n cael ei roi ar y farchnad bob blwyddyn. Gwnaed amcangyfrifon ar sail y data cyhoeddedig, ymchwil i'r farchnad, gwybodaeth gan randdeiliaid a'r diwydiant a gwaith ymchwil tebyg a wnaed ar ran DEFRA⁸. Nododd yr astudiaeth nifer cyfyngedig o fusnesau sy'n cynhyrchu'r deunyddiau hyn yng Nghymru. Roedd hefyd yn nodi'r manteision economaidd posibl i Gymru yn sgil y cynnydd mewn gwerthu cynhyrchion amgen, yn enwedig pe bai gweithgynhyrchwyr Cymru yn ymateb i'r galw am yr eitemau hyn.

⁷ Effeithiau gwaharddiad neu gyfyngiadau ar werthu eitemau sydd yng nghyfarwydddeb plastigion untro yr UE - <https://llyw.cymru/effeithiau-gwaharddiad-neu-gyfyngiadau-ar-gerthu-eitemau-sydd-yng-nghyfarwydddeb-plastigion-untro-ue>

⁸ Assessing the economic, environmental and social impacts of a potential ban on plastic straws, plastic stem cotton buds and plastic drinks stirrers: Llywodraeth y DU, 2018 - <https://consult.defra.gov.uk/waste-and-recycling/plastic-straws-stirrers-and-buds/>

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o fanteision ac effeithiau posibl ein cynigion ar fusnesau, gan gynnwys gweithgynhyrchu, yng Nghymru? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

21. Roedd ein hastudiaeth yn archwilio effeithiau amgylcheddol newid i gynhyrchion amldeffnydd. Roedd yn edrych ar argaeledd cynhyrchion amldeffnydd y byddai defnyddwyr yn eu cario gyda nhw, fel cwpanau amldeffnydd neu gytleri bambŵ. Hefyd, adolygwyd astudiaethau dadansoddi cylch bywyd presennol a oedd yn cymharu effaith golchi eitemau amldeffnydd ar yr amgylchedd, o'u cymharu â chynhyrchion plastig untro. Wrth ystyried y gwahaniaethau mewn dulliau mesur, roedd cytleri a llestri amldeffnydd yn ddewis a ffefrir o'u cymharu ag eitemau untro. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad, os oes modd defnyddio'r eitemau hynny, mae cynnyrch ailddeffnydd yn well na chynnyrch untro o unrhyw ddeunydd, o safbwynt effaith amgylcheddol.
22. Rydym yn hynod ymwybodol o'r ffaith fod ein data ymchwil am blastigion ocsobioddiraddiadwy yn fwy cyfyngedig o gymharu ag eitemau eraill, a byddem yn croesawu rhagor o dystiolaeth am y cynhyrchion gorau er mwyn ein helpu i wneud asesiad mwy cyflawn o'u defnydd yng Nghymru.

Cwestiwn 4 – A ddylai plastig ocsobioddiraddiadwy gael ei gynnwys ar restr yr eitemau i'w gwahardd? Rhowch dystiolaeth i ategu'r farn hon.

23. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil cyn pandemig COVID-19, sydd efallai wedi arwain at ddarlun newidiol ar gyfer plastig untro ers hynny. Er hynny, mae'n rhesymol cymryd mai rhywbeth eithaf tymor byr fydd yr amhariadau ar yr eitemau dan ystyriaeth. Byddem yn croesawu sylwadau ar y cwestiwn, a yw'r cyfnod COVID-19 wedi tarfu ar y farchnad ar gyfer eitemau plastig untro, ac yn rhywbeth na chredwch sydd wedi ei adlewyrchu yn ein casgliadau gwaith ymchwil.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n credu bod pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau i'r farchnad na chawsant eu hystyried yn ein hymchwil ar hyn o bryd? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

24. Mae'r adroddiad ymchwil llawn ar gael ar ein gwefan⁹. Fodd bynnag, mae trosolwg o bob eitem plastig untro a gynigir ar gael yn **Atodiad A** ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon.

Eithriadau er mwyn osgoi effeithiau anghymesur y gwaharddiadau plastig untro

25. Wrth wahardd unrhyw eitem, rydym yn cydnabod bod posibilrwydd o effeithiau anffafriol anghymesur mewn rhai amgylchiadau prin. Credwn y gallai fod cyfiawnhad i eithriadau o'r gwaharddiadau arfaethedig:

- os yw grŵp penodedig o unigolion yn gweld bod y dewisiadau amgen diblastig (yn lle eitemau penodol a waharddwyd) yn hynod anymarferol; neu
- gall lleoliad neu ddull penodol o'u defnyddio fod yn arbennig o anaddas i'r dewisiadau diblastig a bennwyd yn lle'r eitemau penodol sydd wedi'u gwahardd; ac
- nad oes unrhyw fesurau lliniaru eraill y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â'r effaith anghymesur honno.

26. Mae angen i eithriadau fod yn glir ac ymarferol fel nad ydynt yn tanseilio'r amcanion polisi rydym yn ceisio'u cyflawni.

27. Ar sail ein hymchwil, credwn fod modd bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 25 uchod mewn perthynas â gwellt plastig untro sy'n ddyfeisiau meddygol/a ddefnyddir at ddibenion meddygol. Credwn y gall fod rheswm da dros eithrio'r canlynol hefyd:

- Defnyddio gwellt plastig untro mewn lleoliad gofal, fel ysbyty neu gartref gofal. Hyn oherwydd gwendidau penodol pobl yn y lleoliadau hyn, sy'n gysylltiedig nid yn unig â gofal meddygol ond hefyd oedran, sy'n nodwedd warchoddedig.
- Y defnydd o wellt plastig gan bobl anabl, sydd, fel oedran, yn nodwedd warchoddedig.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau rydym yn eu cynnig a sut y gallwn eu gwneud mor glir ac ymarferol â phosibl i'w cymhwyso? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

⁹ Effeithiau gwaharddiad neu gyfyngiadau ar werthu eitemau sydd yng nghyfarwyddeb plastigion untro yr UE: Llywodraeth Cymru, 2019 - <https://llyw.cymru/effeithiau-gwaharddiad-neu-gyfyngiadau-ar-gerthu-eitemau-sydd-yng-nghyfarwyddeb-plastigion-untro-ue>

Cwestiwn 7 – A ddylem ystyried unrhyw eithriadau eraill mewn perthynas â'r holl eitemau plastig untro sy'n rhan o'n cynnig?

Trefniadau pontio

28. Ein blaenoriaeth yw cyflwyno gwaharddiad cyn gynted â phosibl, er mwyn atal difrod parhaus y cynhyrchion hyn i'r amgylchedd.
29. Rydym yn cydnabod y bydd angen i fusnesau newid cyn y gwaharddiad er mwyn addasu eu cadwyni cyflenwi a defnyddio stociau o eitemau plastig untro sy'n bodoli'n barod. Ein nod yw rhannu canlyniad yr ymgynghoriad hwn ddechrau 2021 a dod â'r gwaharddiadau i rym, yn amodol ar unrhyw eithriadau, yn ystod hydref 2021.
30. Yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn cynnal trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid i ddeall yr hyn sydd ei angen er mwyn cefnogi'r broses o bontio i waharddiadau ar blastig untro. Byddwn yn sicrhau bod gan fusnesau amserlenni clir a digon o arweiniad ar y mater hwn wrth i ni newid i'r gwaharddiad.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gwaharddiadau yn rhoi digon o amser i fusnesau o bob math addasu? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

Gorfodi'r gwaharddiadau

31. Er mwyn gorfodi gwaharddiadau, rydym yn cynnig trefn sancsiynau sifil a fydd yn caniatáu i'r rheoleiddiwr ddefnyddio hysbysiadau gorfodi a chosbau ariannol amrywiadwy. Mae'r sancsiynau hyn wedi'u nodi yn rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008¹⁰. Mabwysiadwyd y dull rheoleiddio hwn mewn ymyriadau amgylcheddol tebyg eraill yng Nghymru. Er enghraifft, y gwaharddiad ar ficrobelenni plastig mewn cynhyrchion gofal personol¹¹. Credwn y bydd y cosbau sifil hyn yn cynnig ffordd hyblyg a chymesur o orfodi.

¹⁰ Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/13/part/3>

¹¹ Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 - <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/760/contents/made/welsh>

32. Rydym yn cynnig y dylai awdurdodau lleol gyflawni'r rôl orfodi hon, o gofio eu profiad yn gorfodi gofynion tebyg sy'n bodoli'n barod.

Cwestiwn 9 - Ydych chi'n cytuno â'r defnydd arfaethedig o Gosbau Sifil?

Cwestiwn 10- Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol orfodi'r gwaharddiad?

33. Yn y lle cyntaf, rydym yn awyddus i awdurdodau gorfodi a'r busnesau hynny y mae'r gwaharddiadau yn effeithio arnynt, gydweithio i ddatrys unrhyw broblemau yn wirfoddol lle bynnag y bo modd. Credwn mai addysg ac arweiniad ddylai ddod gyntaf, ond bydd gorfodaeth a sancsiynau ffurfiol ar gael er mwyn eu defnyddio lle bo amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

Datblygiadau'r dyfodol

34. Mae cynigion y ddogfen hon yn gam allweddol cychwynnol i gael gwared ar blastigion untro o'r gadwyn defnyddwyr yng Nghymru.
35. Wrth i gynhyrchion newydd ddatblygu ac ennill eu plwyf yn y farchnad gan gymryd lle eitemau plastig untro eraill, byddwn yn ystyried pa mor addas yw gwaharddiadau pellach neu ymyriadau eraill. Yn ystod ail gam y gwaith hwn, byddwn yn ystyried eitemau fel weips a chynhyrchion tyweli llaith tebyg. Gwyddom fod llawer o'r cynhyrchion hyn yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth, gan greu problemau blocio a hyd yn oed peryglon llifogydd posib.
36. Mae modd defnyddio'r cynhyrchion hyn at sawl diben. Fe'u defnyddir ar gyfer hylendid personol, gofalu am blant a glanhau pob math o arwynebau yn gyflym ac effeithiol. Mae pryderon diweddar ynghylch COVID-19 wedi achosi i bobl yng Nghymru ddod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd glanhau arwynebau lle y gallai nifer o bobl fod yn bresennol gydol y dydd. Gall hyn arwain at fwy o ddibyniaeth ar y defnydd o glytiau glanhau tafladwy. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth o'r effaith y gallai gwaharddiad posibl ar yr eitemau hyn ei chael. Hefyd, nid yw'n glir eto a oes ystod ddigonol o gynhyrchion eraill ar y farchnad sy'n llai problemus yn yr amgylchedd. Cyn hir, byddwn yn comisiynu tystiolaeth i archwilio effaith bosibl cynnwys weips o fewn ymyriadau'r dyfodol.

Cwestiwn 11 – A ddylid cynnwys weips mewn cynigion ar gyfer gwaharddiadau pellach yn y dyfodol neu a ddylid cyflwyno mesurau eraill i fynd i'r afael â nhw, er enghraifft Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

Cwestiwn 12 – A oes unrhyw eitemau eraill y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol i fynd i'r afael â phlastigion untro? Rhowch resymau gyda thystiolaeth i ategu hyn os oes modd.

Atodiad A: Crynodeb o ymchwil ar weithgynhyrchu, gwerthu a defnyddio eitemau plastig untro yng Nghymru

Eitem 1 – ffyn cotwm plastig untro


Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

37. Mae gan ffyn cotwm goesyn gwellt polypropylen a defnyddir glud seiliedig ar blastig i atodi pelen fach o wlân cotwm i bob pen o'r coesyn.

38. Fe'u defnyddir yn aml yn y cartref at ddibenion hylendid megis glanhau clustiau, cymorth cyntaf, coluro a chelf a chreffft. Gellir eu defnyddio hefyd mewn cyd-destun meddygol neu fforensig i roi a thynnu sylweddau a moddion neu er mwyn gymryd samplau DNA a microbiolegol (a elwir hefyd yn "ffyn swab" yn y cyd-destunau hyn).

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

39. Mae ein gwaith ymchwil yn amcangyfrif bod 100 miliwn o ffyn cotwm yn cael eu gwerthu yma yng Nghymru, a bod tua 30 miliwn o'r rheini wedi'u gwneud o blastig untro. Nid ydym wedi llwyddo i ganfod unrhyw wneuthurwyr ffyn cotwm yng Nghymru. Mae ymchwil i'r farchnad fyd-eang yn dangos bod y 10 gwneuthurwr ffyn cotwm byd-eang mwyaf poblogaidd y tu allan i Gymru (yn Ne-ddwyrain a De Asia yn bennaf).



Eitem 2 - Platiau plastig untro

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd



40. Dangosodd ein hymchwil fod amrywiaeth eang o ddefnyddiau ar gyfer platiau, gan gynnwys platiau gweini, platiau cinio, platiau bach a soseri. Mae sawl siâp a maint gwahanol ar gael, o'r crwn safonol i'r sgwâr neu hirgrwn. Ar y sail hon, credwn y byddai unrhyw blât plastig untro hefyd yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- Hambyrddau a dysglau at ddibenion gweini – ar gyfer hors d'oeuvres, canapés, bwyd i godi blas, pwdinau, tecawê.
- Powlenni – a ddefnyddir fel powlenni cawl a salad (ond nid rhai a ddefnyddir ar gyfer saladau parod), powlenni pwdin a phowlenni mawr i weini.
- Platiau papur wedi'u lamineiddio – platiau gyda gorchudd plastig neu 'bioddiraddadwy' i leihau eu hamsugniad.

41. Caiff platiau plastig untro yn aml eu gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr mewn siopau i'w defnyddio yn y cartref wedyn. Er enghraifft, ar gyfer digwyddiadau, partiön, barbeciwiau. Gallant hefyd gael eu cyflenwi 'am ddim' yn y man gwerthu ochr yn ochr â bwydydd mewn busnesau arlwyo a siopau tecawê. Caiff platiau o'r fath eu gwerthu gyda bwydydd cyfleus/prydau parod. Nid oedd platiau sydd eu hangen i gynhesu cynnyrch yn rhan o gwmpas ein hymchwil. Er enghraifft, rhai sy'n dod gyda phrydau microdon neu ffwrn. Ni chafodd yr eitemau hyn eu cynnwys yn ein hymchwil gan nad yw pobl yn debygol o fwyta'n syth o'r platiau hyn "wrth fynd", felly mae'r perygl o'u lluchio fel sbwriel yn isel. Ar ben hynny, maen nhw'n aml wedi'u gwneud o blastig ailgylchadwy ac felly mae modd defnyddio systemau ailgylchu domestig presennol i'w trin.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

42. Amcangyfrifir bod 59 miliwn o blatiau defnydd sengl yn cael eu gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn - 29 miliwn o rai plastig a 29 miliwn o rai papur. Mae hyn yn cyfateb i 19 plât tafladwy i bob unigolyn ar gyfartaledd bob blwyddyn.

43. Mae'r defnydd a wneir o'r platiau hyn yn amrywio o rai ar gyfer y cartref a brynwyd mewn siopau manwerthu (er enghraifft, ar gyfer partiön a bwyta yn yr awyr agored) a defnydd contractau masnachol a brynwyd mewn siopau cyfanwerthu neu'n uniongyrchol gan weithgynhyrchwyr (er enghraifft, gwyliau cerddorol a gwerthwyr bwyd stryd).

44. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos fod prif safleoedd gweithgynhyrchu'r platiau hyn y tu allan i'r DU (De-ddwyrain Asia a Gogledd America yn bennaf), ond bod bylchau posibl yn y setiau data gweithgynhyrchu presennol.

Eitem 3 – Cytleri plastig untro

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd



45. Credwn fod cytleri yn cael eu diffinio fel nwyddau gweini tafladwy. Maen nhw'n cael eu cyflenwi 'am ddim' yn aml wrth y pwynt gwerthu ar gyfer bwydydd busnesau arlwygo a thecawê, a werthir gyda bwydydd cyfleus/bwyd parod, neu a werthir yn uniongyrchol i'r defnyddiwr mewn archfarchnadoedd i'w defnyddio yn y cartref. Byddai hyn yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- ffyrc
- cyllyll
- llwyau
- gweill bwyta (*chopsticks*)
- *sporks* (ffyrc a llwyau cyfun gyda phasta/saladau parod)

46. Mae ein hymchwil wedi nodi tair sefyllfa wahanol lle gellid defnyddio cytleri plastig untro. Mae hyn yn cynnwys defnydd yn y fan a'r lle yn bennaf er mwyn arbed costau golchi cytleri e.e. mewn digwyddiadau neu gynadleddau, i'w cael gyda bwyd na ellir ei fwyta â llaw i'w fwyta ar y pryd, mewn barbeciwiau/picnics/partïon ac i osgoi risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â chytleri metel e.e. mewn carchardai, awyrennau a gwyliau.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

47. Amcangyfrifwn fod 226 miliwn o unedau cytleri plastig yn cael eu gwerthu'n flynyddol yng Nghymru, gyda 159 miliwn ohonyn nhw'n blastig. Mae ymchwil gan y Comisiwn Ewropeaidd¹² yn dweud bod mwy a mwy o gytleri plastig untro yn cael eu mewnfurio'n bennaf o ranbarth Asia'r Môr Tawel i Ewrop. Fodd bynnag, dangosodd cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn ystod ein proses ymchwil fod nifer o weithgynhyrchwyr yng Nghymru yn defnyddio llwyau plastig at ddibenion penodol, megis potiau hufen iâ bach.

¹² Reducing Marine Litter: action on single use plastics and fishing gear – Impact Assessment: Y Comisiwn Ewropeaidd, 2018 - https://ec.europa.eu/environment/circular-economy/pdf/single-use-plastics_impact_assessment.pdf

Eitem 4 – Troellwyr diodydd plastig untro

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

48. Defnyddir y cynhyrchion cadarn untro hyn er mwyn helpu i hydoddi siwgr mewn diodydd poeth neu gymysgu diodydd fel te, coffi a diodydd alcoholaidd amrywiol. Y sector lletygarwch yw'r brif farchnad, ac fe'u defnyddir yn bennaf mewn tafarndai, clybiau a bwytai.



Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

49. Amcangyfrifir bod 11 miliwn o unedau'n cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru, 5.7 miliwn ohonyn nhw'n blastig. Awgryma ein hymchwil eu bod yn cael eu cyflenwi'n bennaf o'r tu allan i'r DU drwy fewnforion cyfanwerthwyr.

Eitem 5 – Gwellt plastig untro

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

50. Mae gwellt plastig fel arfer yn cael eu gwneud o bolypropylen, gyda mathau eraill o blastig yn cael eu defnyddio i'w cynhyrchu mewn marchnadoedd lleiafrifol e.e. at ddefnydd meddygol. Rydym wedi diffinio gwellt yfed plastig tafladwy fel nwyddau anhyblyg neu hyblyg eu natur, plaen neu liwgar, ac o bosibl wedi'u lapio mewn ffilm at ddibenion hylendid. Cynhyrchir amrywiaeth eang o wellt ar gyfer defnydd domestig a masnachol. Roedd ein hymchwil yn cynnwys y gwellt yfed bach cyffredin sydd wedi'u lapio mewn ffilm blastig ac sy'n sownd i gartonau diodydd.



51. Defnyddir gwellt ar gyfer pob math o ddefnyddiau, yn ddomestig ac yn fasnachol. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu prynu ar sail busnes-i-fusnes a'u cyflenwi mewn bwytai, tafarndai, gwestai, manwerthu ac ysgolion. Hefyd, defnyddir gwellt mewn cyd-destun meddygol er mwyn rhoi meddyginiaethau sydd wedi'u dogni ymlaen llaw yn ddiogel. Defnyddir gwellt plastig hyblyg hefyd er mwyn helpu pobl i gael diodydd a bwyd hylifol at ddibenion meddygol.


Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

52. Mae ein hymchwil yn amcangyfrif fod 256 miliwn uned o wellt wedi'u gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn, 173 miliwn ohonyn nhw'n blastig. Caiff dewisiadau amgen diblastig eu cynhyrchu ar hyn o bryd yng Nghymru.

Eitem 6 - Ffyn balwân plastig untro

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

53. Mae ffyn balwân wedi'u hatodi i falwnau latecs llawn aer i'w cynnal a rhoi'r argraff eu bod yn arnofio. Mae pob 'ffon hir a chwpan' yn cynnwys ffon (tebyg i welltyn) a chwpan sy'n sownd i'r balwân heb ei fyrstio.



54. Fe'u defnyddir yn yr awyr agored yn bennaf, ac yn aml gan blant. Mae defnyddwyr cyfanwerthu yn cynnwys bwytai cadwyn, elusennau a'r sector partïon. Cânt eu gwerthu gan fusnesau i fusnesau yn bennaf, yn hytrach nag i ddefnyddwyr. Er hynny, unigolion - plant yn bennaf - yw'r defnyddwyr yn bennaf.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

55. Amcangyfrifwn fod 1 miliwn o unedau ffyn balwnau yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru. Ni nodwyd unrhyw weithgynhyrchwr yng Nghymru.

Eitem 7 - Cwpanau diodydd untro wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu a'i allwthio (EPS/XPS)



Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

56. Fel arfer, defnyddir cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu a'i allwthio er mwyn arbed costau golchi cwpanau y gellir eu haildefnyddio. Er enghraifft, mewn ffeiriau cymunedol, digwyddiadau a chynadleddau. Mae hyn yn cynnwys cwpanau â gorchudd/caead neu hebdo. Mae'r cwpanau hyn yn arbennig o addas ar gyfer diodydd poeth o ystyried priodweddau inswleiddio EPS/XPS.

57. Fe'u defnyddir yn gyffredin mewn carchardai, ysbytai a chartrefi gofal i osgoi risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â gwydr neu ddeunyddiau eraill. Mae'r caeadau i orchuddio'r cwpanau yn cael eu gwneud o bolystyren heb ei ehangu ac yn helpu i gadw diodydd 'i fynd' yn boeth.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

58. Rydym yn amcangyfrif bod 33 miliwn uned o gwpanau tafladwy yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru, ac o'r rhain mae 26 miliwn yn cael eu gwneud o EPS/XPS. Ni lwyddodd ein hymchwil i ganfod unrhyw weithgynhyrchwr yng Nghymru.

Eitem 8 - Cynwysyddion bwyd untro a wnaed o bolystyren wedi'i ehangu a'i allwthio (EPS/XPS)



Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

59. Rydym wedi defnyddio'r diffiniadau a ddarperir yng Nghyfarwyddeb Plastig Untro yr Undeb Ewropeaidd¹³ i nodi'r math o gynwysyddion bwyd a ddefnyddir yng Nghymru. Mae hwn yn diffinio cynhwysydd bwyd fel llestr neu ddaliedydd, megis bocsys, gyda gorchudd neu hebdo, a ddefnyddir i gynnwys bwyd:

- (a) y bwriedir ei fwyta ar unwaith, naill ai yn y fan a'r lle;
- (b) sydd fel arfer yn cael ei fwyta o'r cynhwysydd; ac
- (c) sy'n barod i'w fwyta heb unrhyw waith paratoi pellach, megis coginio, berwi neu wresogi, gan gynnwys cynwysyddion bwyd a ddefnyddir ar gyfer bwyd cyflym neu brydau eraill sy'n barod i'w bwyta ar unwaith.

60. Defnyddir cynwysyddion bwyd a wnaed o bolystyren wedi'i ehangu neu allwthio yn bennaf ar safleoedd tecawê (gwerthwyr y stryd fawr a gwerthwyr bwyd stryd fel siopau byrgers/sglodion a siopau cebab). Mae rhai'n cael eu defnyddio gan y sector lletygarwch mewn gwestai, tafarndai a busnesau darparu bwyd parod. Caiff cynwysyddion bwyd EPS/XPS eu defnyddio mewn digwyddiadau hefyd, er bod symudiad cynyddol tuag at gynhyrchion eraill. Gwerthir yr eitemau i ddefnyddwyr drwy'r sector gwasanaeth bwyd a busnesau drwy gyfanwerthwyr o'r gwasanaeth bwyd.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

61. Roedd amcangyfrifon o gyfaint gwerthu cwpanau EPS/XPS yn seiliedig ar ymchwil flaenorol ar gyfer DEFRA ac wedi'i raddio ar sail cymhareb poblogaeth Cymru-Lloegr o 6%. Yn achos cwpanau, amcangyfrifwyd bod 33 miliwn uned yn cael eu gwerthu yng Nghymru bob blwyddyn, gyda 26 miliwn yn rhai EPS/XPS, a 7 miliwn yn rhai papur. Nid lwyddodd ein hymchwil i ganfod unrhyw weithgynhyrchwr yng Nghymru.

¹³ Cyfarwyddeb yr UE 2019/904 – the reduction of the impact of certain plastic products on the environment: Yr Undeb Ewropeaidd - <https://eur-lex.europa.eu/Legal-Content/en/txt/pdf/?uri=OJ:L:2019:155:FULL&from=en>

Eitem 9 - Cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig oco-bioddiraddiadwy

Disgrifiad o'r eitem a'i defnydd

62. Mae ein hymchwil yn diffinio 'plastig oco-bioddiraddiadwy' fel "deunyddiau plastig sy'n cynnwys ychwanegion sydd, drwy ocsidiad, yn arwain at ddarnio'r deunydd plastig yn ficro-ddarnau neu ddadelfennu cemegol". Mae CEN (yr Awdurdod Safonau Ewropeaidd) yn diffinio oco-bioddiraddiadwy fel diraddio sy'n deillio o hollti macromoleciwlau trwy ocsideiddio.
63. Ymhlith y cynhyrchion a wneir gyda'r dechnoleg ychwanegol hon ac sydd ar gael ar y farchnad mae ffilmiau bagiau siopa, ffilmiau tomwellt amaethyddol ac, yn fwyaf diweddar, poteli plastig penodol. Mae defnyddiau eraill yn cynnwys deunydd pacio, gyda chynhyrchion megis deunydd pacio swigod, labeli a chapiau.

Y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd

64. Er y gallai 'plastigion oco-bioddiraddiadwy' gwmpasu sawl math gwahanol o gynnyrch, ni ddaeth ein hymchwil o hyd i unrhyw farchnad sylweddol yma yng Nghymru. Canfu ein hymchwil fod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â gwerthu a defnyddio cynhyrchion a wnaed o blastig oco-bioddiraddiadwy yn y DU yn fwy cyffredinol.